

Rheolwr Prosiect Cenedlaethol Cymunedau Mwy

Dyddiad Cau: 3 Chwefror 2020

Dyddiad y Cyfweiliad: i gael ei gadarnhau

Graddfa/Cyflog:	£54,001 (SCP 52 Sefydlog)
Cyfnod:	Cynigir y swydd am dymor penodol tan fis Mawrth 2022 drwy secondiad neu gytundeb cyfnod penodol.
Yn atebol i'r:	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
Yn atebol i'r:	Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel
Lleoliad:	Tŷ'r Llywodraeth Leol, Caerdydd
Swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol	Ydi
Cymraeg yn hanfodol	Nac ydi

Ynglŷn â'r Swydd

Fe ariannir y swydd hon ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Phlisma a Nghymru (y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabiliaid).

Bydd yn adeiladu ar waith presennol i fwrw ymlaen â darparu Gwaith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yng Nghymru yn well ac yn llwyddiannus, yn seiliedig ar y weledigaeth ddiwygiedig y cytunwyd arni ar gyfer Diogelwch Cymunedol yng Nghymru (https://llyw.cymru/adolygiad-o-gweithio-gydan-gilydd-i-greu-cymunedau-mwy-diogel?_ga=2.132642190.1838443861.1579253829-1391634767.1579100053).

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda ac yn atebol i aelodau Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel sydd yn cynnwys aelodau etholedig a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd, Llywodraeth leol a'r heddlu a phartneriaid eraill i: -

- parhau i hyrwyddo, cefnogi a hwyluso'r gwaith o fywiogi a sefydlu gwaith arwain a phartneriaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol ar draws Cymru,
- bod yn gyfrifol am roi'r newyddion diweddaraf i fudd-ddeiliaid ynglŷn â datblygiadau polisi ac ymarfer ym meysydd diogelwch cymunedol a meysydd cysylltiedig; a
- darparu cyfleoedd i rannu arferion gorau newydd ac arferion â thystiolaeth am gydlynw a darparu blaenoriaethau diogelwch cymunedol.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:

- Darparu arweinyddiaeth uniongyrchol ar ran llywodraeth leol a phlisma wrth gyflwyno blaenoriaethau Cymunedau Mwy Diogel, gan sicrhau fod yna ddealltwriaeth eang a chytundeb ymysg pob partner o bwysigrwydd Diogelwch Cymunedol. Hyrwyddo a galluogi arweinyddiaeth strategol o fewn agweddau eraill o weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, cydweithio ar faterion camddefnyddio sylweddau, diogelu pobl ddiamddiffyn ac iechyd meddwl.
- Datblygu rhaglen o waith sy'n cynnwys gweithredu ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol fel y bo'n briodol, i gyflawni'r canlyniadau allweddol, gan sicrhau bod y prif bartneriaid yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig mewn deddfwriaeth neu bolisiau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig fel y bônt yn berthnasol i'r gwaith ar Ddiogelwch Cymunedol.
- Asesu ac adrodd ar oblygiadau ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, gan nodi problemau posibl a/neu oblygiadau sy'n ymwneud â darparu diogelwch cymunedol a chefnogi'r gwaith o roi argymhellion ar waith fel y bo'n briodol neu'n berthnasol i lywodraeth leol a/neu blisma.
- Sefydlu a chynnal cysylltiadau gwaith effeithiol gyda budd-ddeiliaid allweddol yng nghyd-destun diogelwch cymunedol (gan gynnwys cyrff datganoledig ac annatganoledig) yn enwedig felly'r rheiny sy'n gweithio yng Nghymru ac yn y system cyfiawnder troseddol, a'r rheiny sy'n gwneud gwaith cysylltiedig o ran ymyrryd yn gynnar, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Sefydlu a chynnal cyswllt parhaus gyda phrif swyddogion diogelwch cymunedol mewn sefydliadau partner allweddol gan gynnwys hwyluso'r gwaith o rannu arferion orau a sicrhau fod ymarferwyr diogelwch cymunedol yn cael eu cefnogi i ennill y sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol i roi'r weledigaeth newydd ar waith.
- Arwain y gwaith o ddatblygu canllawiau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth er diogelwch cymunedol, gan bennu'r modd y gall partneriaid ymgorffori'r egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a Nodweddion Partneriaethau Effeithiol.
- Arwain y gwaith o ddatblygu a sefydlu Rhwydwaith o Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru, gan gynnwys datblygu a chytuno ar fodel ariannol ar gyfer ei gynaliadwyedd yn y dyfodol, yn amodol ar gyllid cychwynnol gan Lywodraeth Cymru.
- Gweithio'n uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd i egluro argaeledd a phwrpas cyllid ar gyfer gwaith partneriaeth diogelwch cymunedol, rhaglenni a mentrau ar draws Cymru.
- Adnabod a phenderfynu sut y gellir rhannu a defnyddio adnoddau'n well i gynyddu capasiti i symud ymlaen â gwaith diogelwch cymunedol strategol a gweithredol ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Datblygu trefniadau i alluogi datblygu arfer orau mewn cysylltiad â rhannu gwybodaeth a data a chefnogi gwaith i gynyddu/gwneud y defnydd gorau o gapasiti dadansoddi presennol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ar draws plisma, llywodraeth leol a phartneriaid eraill.
- Darparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith i gefnogi gwaith y Prosiect, gan gynnwys cyfarfodydd Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r rheolwr atebol neu'r Bwrdd yn gofyn i chi eu gwneud sy'n gymesur â dyletswyddau'r swydd.

Manylion am yr Unigolyn

Profiad

Gwybodaeth

- Gwybodaeth fanwl am y cyd-destun diogelwch cymunedol yng Nghymru, a'r cyd-destun deddfwriaethol llawn sy'n rheoli diogelwch cymunedol, gostwng troseddu a lleihau aildroseddu
- Gwybodaeth fanwl am ddeddfwriaethau perthnasol Cymru, yn cynnwys y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'u goblygiadau i lywodraeth leol.
- Profiad amlwg o weithio mewn amgylchedd sy'n ymwneud â pholisi ar lefel uwch, yn cynnwys ymchwilio, datblygu, dadansoddi a chyflwyno cynigion a dadansoddiadau polisi, a dehongli eu heffaith, perthnasedd a'u goblygiadau
- Dangos profiad o ddatblygu perthynas gref a meithrin hyder a chydweithio rhwng amrywiaeth o asiantaethau a phroffesiynau gwahanol
- Gwybodaeth am faterion presennol a heriau y mae llywodraeth leol, plismona a'r system gyfiawnder droseddol a'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu, yn enwedig mewn cysylltiad â hyrwyddo a sefydlu diogelwch cymunedol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth am ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol ac arfer orau, y gofynion ar gyrrff cyhoeddus ac ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb perthnasol yn y system gyfiawnder troseddol

Profiad

- Profiad o weithio ar lefel uwch gydag uwch wleidyddion (Ysgrifenyddion Cabinet, Gweinidogion, Arweinwyr Awdurdod Lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd) ac uwch swyddogion (Prif Weithredwr, Prif Gwnstabiliaid ac ati) mewn cysylltiad â datblygu a gweithredu mentrau polisi
- Profiad o drefnu a hwyluso trafodaethau lefel uwch ar destunau penodol ac o frocera datrysiadau ymysg gwahanol sefydliadau, sefydlu a chynnal perthynas waith cadarnhaol gyda phartneriaid allweddol
- Profiad o weithredu rhwng meysydd polisi datganoledig ac annatganoledig, a dod o hyd i ddatrysiadau sydd yn gallu pontio a bodloni gwahanol gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU
- Profiad o ddatblygu ymatebion creadigol ac arloesol i heriau, gan adlewyrchu ymrwymiad i ddarparu canlyniadau a bodloni galw ac amserlenni heriol fel y bo angen
- Profiad o gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith ymchwil a mentrau newydd a rhannu gwybodaeth ag amrywiaeth o bobl a chynulleidfaoedd, yn cynnwys uwch swyddogion ac aelodau etholedig.

Gallu

- Gallu gweithio ar eich liwt eich hun a rheoli eich llwyth gwaith eich hun gydag ychydig o oruchwyliaeth a dangos sgiliau rheoli prosiectau cryf
- Sgiliau cyfathrebu da gan gynnwys cyflwyno gwybodaeth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewn fformatau ac iaith briodol, yn ysgrifenedig ac ar lafar
- Gallu defnyddio TG, gan gynnwys defnyddio pecynnau Office
- Gallu a pharodrwydd i deithio ar draws Cymru (a'r DU) fel y bo'n briodol

Dymunol:

- Profiad o gyflwyno/hyfforddi a lledaenu gwybodaeth i staff proffesiynol mewn cyd-destun aml-asiantaeth
- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwybodaeth am Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel

Yn bennaf bydd y swydd yn cefnogi a datblygu gwaith Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, gan gefnogi a galluogi'r Bwrdd i ddarparu arweinyddiaeth, trosolwg a chyfeiriad i waith Cymunedau Mwy Diogel ledled Cymru. Fe sefydlwyd y Bwrdd gan lywodraeth leol a phlisma y Nghymru, yn cynnwys partneriaid eraill, gyda'r nod o ddarparu arweinyddiaeth ranedig effeithiol i gefnogi gweithio mewn partneriaeth lleol i gefnogi cymunedau diogel, cryf a mwy hyderus.

Bydd y Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol ranedig er mwyn ymdrin a mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol, gan gynnwys adnabod blaenoriaethau newydd ar gyfer cation gan sicrhau fod polisi cefnogol, isadeiledd ymarfer a phartneriaeth ar waith i alluogi cyflenwi llwyddiannus, yn lleol a rhanbarthol fel sy'n briodol. Fe fydd hefyd yn hyrwyddo dull cydlynol yn genedlaethol a lleol tuag at fentrau a phrosiectau megis Uned Atal Trais, Hwb ACE ac Ymyrryd yn Gynnar gyda'n Gilydd, er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd dulliau atal ac ymyrryd yn fuan a sicrhau eu bod yn cael eu sefydlu yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yng Nghymru.

Gwnewch gais Rŵan!

I gael sgwrs gychwynol ynglŷn â'r swydd a'r sefydliad, cysylltwch â Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr, Materion Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai on 029 20 468 660.

I wneud cais, anfonwch lythyr eglurhaol gyda ffurflen gais wedi ei llenwi erbyn y dyddiad cau 3 Chwefror 2020 i:

Rheolwr Adnoddau Dynol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd CF10 4LG
e-bost recruitment@wlga.gov.uk

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweiliad ar (i gael ei gadarnhau) yn Nhŷ Llywodraeth Leol, Caerdydd. Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer gwblhau tasg cyn bod yn bresennol yn y cyfarfod, yn ogystal â thasgau cyn cyfweiliad ar y diwrnod, wedi'i ddilyn gan gyfweiliad gyda phanel dethol.